



## YSGOL DYFFRYN CONWY

Pennaeth / Head : Miss Elan Davies

e-bost/e-mail : [cyff@dyffrynconwy.conwy.sch.uk](mailto:cyff@dyffrynconwy.conwy.sch.uk)

[www.ysgoldyffrynconwy.org](http://www.ysgoldyffrynconwy.org)



01/05/2017

Annwyl ddisgyblion, rhieni/gwarcheidwaid Blwyddyn 11,

Dosbarthwyd amserlen arholiad terfynol eich mab/merch cyn gwyliau'r Pasg. Ysgrifennaf atoch i rannu trefniadau ar eich cyfer hyd at ddiwedd eich arholiadau ym Mehefin. Dyma tabl o ddyddiadau allweddol:

Dyddiadau	Gweithgaredd
Dydd Llun 8fed o Fai	Cyfnod Amserlen Gwersi, Astudio ac Arholiadau yn cychwyn
Dydd Mawrth, 9fed o Fai	Arholiad cyntaf.
Wythnos 15fed o Fai	Cyfuniad o arholiadau allanol, gwersi arferol a sesiynau adolygu penodol.
Wythnos 22ain o Fai.	Cyfuniad o arholiadau allanol, gwersi arferol a sesiynau adolygu penodol.
Prynhawn Iau, 25ain o Fai	Cyfle i arwyddo crysau polo.
Dydd Gwener, 26ain o Fai	Bydd eich cyfnod astudio ffurfiol ym mlwyddyn 11 yn dod i ben.
Dydd Gwener 26ain o Fai	Diwrnod olaf swyddogol yn YDC.
Dydd Llun 5ed o Fehefin	Astudio annibynol, arholiadau a rhai sesiynau adolygu ffurfiol yn yr ysgol.
Dydd Iau, 22fed o Fehefin.	Arholiad TGAU diwethaf.
Nos Wener y 23ain o Fehefin	<b>Seremoni Ffeil Gynnydd Blwyddyn 11</b> - Neuadd yr Ysgol 5:15 – 6:30 y.p. <b>Prom Blwyddyn 11</b> , Gwesty'r eryrod, Llanrwst – 6:30 – 9.00 y.p.
9 a.m. Dydd Iau, 24ain o Awst	Diwrnod y canlyniadau.
Dydd Gwener, 25ain o Awst.	Cyfweliad opsiynau ar gyfer y 6ed dosbarth.

Hoffwn atgoffa'r disgyblion fod gwisg ysgol lawn yn ddisgwylidig tan diwedd eu cyfnod ffurfiol ac ar **gyfer pob arholiad allanol**. Rhaid sicrhau eu bod yn dod â beiros du a'r offer cywir i bob arholiad. Mae copi o'r arweiniad at arholiadau wedi ei rannu ar ddiwedd tymor y Gwanwyn ac ar gael ar safwe'r ysgol.

Mae'n ofynnol bod eich mab /merch yn mynychu pob arholiad maent wedi eu cofrestru amdanynt. Os oes salwch neu anaf yn codi yn ystod y cyfnod gofynnwn i chi gysylltu efo'r ysgol ar frys gan ofyn am Mrs Delyth Williams neu Mr John Roberts (01492 642802/800). Bydd angen nodyn meddygol ar gyfer unrhyw absenoldeb o arholiad allanol oherwydd salwch/anaf.

Byddwn yn rhannu'r holl wybodaeth ar safwe'r ysgol ac yn ei ddiweddarau os oes newid. Rydych eisoes wedi cael copiau o'ch amserlen arholiadau – os oes angen copi arall arnoch cysylltwch â Mrs Delyth Williams, Swyddog Arholiadau'r Ysgol ([sg@dyffrynconwy.conwy.sch.uk](mailto:sg@dyffrynconwy.conwy.sch.uk)).

Dymunwn yn dda iawn i'n holl ddisgyblion yn eu arholiadau – gwyddom eu bod wrthi'n adolygu ac y byddent yn gweithio gyda ni dros yr wythnosau nesaf er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud eu gorau yn yr arholiadau.

Yn gywir,

Mr John Roberts

Mrs Catrin Jones

[Dirprwy]

[Pennaeth Cynnydd a Dysgu Bl.11]

